Memorandwm Esboniadol ar gyfer Rheoliadau Coedwigaeth (Cwympo Coed) (Diwygio) (Cymru) 2023

Lluniwyd y Memorandwm Esboniadol hwn gan yr Adran Newid Hinsawdd a Materion Gwledig ac fe'i gosodir gerbron Senedd Cymru ar y cyd â'r is-ddeddfwriaeth uchod ac yn unol â Rheol Sefydlog 27.1.

Datganiad y Gweinidog

Yn fy marn i, mae'r Memorandwm Esboniadol hwn yn rhoi darlun teg a rhesymol o effaith ddisgwyliedig Rheoliadau Coedwigaeth (Cwympo Coed) (Diwygio) (Cymru) 2023.

Rwyf wedi fy modloni bod y manteision yn cyfiawnhau'r costau tebygol.

Julie James AS
Y Gweinidog Newid Hinsawdd
12 Hydref 2023

RHAN 1

1. Disgrifiad

1.1 Mae Rheoliadau Coedwigaeth (Cwympo Coed) (Diwygio) (Cymru) 2023 ("y Rheoliadau hyn") yn diwygio Rheoliadau Coedwigaeth (Cwympo Coed) 1979 ("Rheoliadau 1979"). Mae'r diwygiadau hyn yn gwneud darpariaeth ar gyfer materion gweithdrefnol sy'n deillio o adrannau newydd a fewnosodwyd yn Neddf Coedwigaeth 1967 ("Deddf 1967") gan Ddeddf Amaethyddiaeth (Cymru) 2023 ("Deddf 2023"). Mae Deddf 2023 i'w gweld yma Deddf Amaethyddiaeth (Cymru) 2023 (legislation.gov.uk).

2. Materion o ddiddordeb arbennig i'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

2.1 Dim.

3. Y cefndir deddfwriaethol

3.1 Mae'r darpariaethau yn Neddf 2023 yn diwygio Deddf 1967 i ganiatáu ychwanegu amodau amgylcheddol at drwyddedau cwympo coed a galluogi diwygio, atal dros dro neu ddirymu trwyddedau cwympo coed a roddwyd eisoes. Mae nifer o'r adrannau newydd yn Neddf 1967, a fewnosodwyd gan Ddeddf 2023, yn rhoi cychwyn i faterion gweithdrefnol newydd, megis "cyfnod rhagnodedig" a/neu "dull rhagnodedig". Mae hyn yn ei gwneud yn ofynnol diwygio Rheoliadau 1979 sy'n gwneud darpariaeth ar gyfer materion gweithdrefnol amrywiol o dan Ddeddf 1967. Mae'r diwygiadau hyn yn angenrheidiol er mwyn galluogi'r adrannau newydd o Ddeddf 1967 i weithio'n effeithiol. Bydd gwneud y Rheoliadau hyn yn darparu ar gyfer y diwygiadau angenrheidiol hynny.

3.2 Daw'r pŵer galluogi i wneud y Rheoliadau hyn o adran 32(1) o Ddeddf 1967. Mae'r pŵer hwn yn darparu y gall Gweinidogion Cymru nodi, mewn rheoliadau, y cyfnod rhagnodedig a'r dull rhagnodedig ar gyfer adrannau o Ddeddf 1967.

3.3 Mae adran 56(1) o Ddeddf 2023 yn darparu bod Rhan 4 o Ddeddf 2023 (diwygiadau i Ddeddf Coedwigaeth 1967) yn dod i rym, at ddiben gwneud rheoliadau o dan adran 32 o Ddeddf Coedwigaeth 1967, ar y diwrnod ar ôl y diwrnod y mae Deddf 2023 yn cael y Cydsyniad Brenhinol. Cafwyd y Cydsyniad Brenhinol ar gyfer Deddf 2023 ar 17 Awst 2023.

3.4 Caiff y Rheoliadau hyn eu gwneud o dan y weithdrefn negyddol.

4. Diben y ddeddfwriaeth a'r effaith y bwriedir iddi ei chael

4.1 Gwnaed y Rheoliadau hyn fel eu bod yn dod i rym ar yr un pryd â'r adrannau newydd yn Neddf 1967. Bwriadwyd i hyn fod ym mis Ionawr 2024 ond mae wedi ei ohirio hyd 1 Ebrill 2024 yn dilyn ceisiadau gan randdeiliaid. Mae'r gohiriad hwn yn caniatáu rhagor o amser i ymgysylltu â rhanddeiliaid ar weithredu'r adrannau newydd o Ddeddf 1967 ac i'r sector coedwigaeth baratoi ar gyfer eu cychwyn. Mae gwneud y Rheoliadau hyn yn awr yn creu sicrwydd i'r sector coedwigaeth o ran gwneud paratoadau o'r fath.

4.2 Bwriad y Rheoliadau hyn yw sicrhau bod yr adrannau newydd o Ddeddf 1967 yn gweithio'n effeithiol. Mae'r enghreifftiau gweithdrefnol newydd a ganlyn wedi eu nodi ac yn cael sylw yn y Rheoliadau hyn.

Gorchmynion Diogelu Coed

4.3 Mae adrannau newydd 10A(3) a 24F(4) o Ddeddf 1967 yn gwneud darpariaeth ar gyfer coed y mae Gorchymyn Diogelu Coed yn gysylltiedig â hwy. Mae'r adrannau newydd hyn yn cyflwyno cyfnod rhagnodedig y caiff yr awdurdod lleol a wnaeth y Gorchymyn Diogelu Coed ymateb i Cyfoeth Naturiol Cymru ynddo os ydynt am wrthwynebu:

- cynnig i ddiwygio trwydded cwympo coed drwy gytundeb rhwng Cyfoeth Naturiol Cymru a'r person cyfrifol, o dan adran newydd 10A o Ddeddf 1967 neu
- cyflwyno hysbysiad gan Cyfoeth Naturiol Cymru o dan adran newydd 24F o Ddeddf 1967, pan fo rhywun naill ai wedi torri amod trwydded cwympo coed neu y byddai cwympo coed o dan y drwydded yn achosi neu'n debygol o achosi niwed sylweddol i fywyd gwyllt neu'r amgylchedd, ee mae sensitifrwydd newydd wedi dod i'r amlwg.

4.4 Mae'r cyfnod rhagnodedig hwn yn bwysig oherwydd efallai nad oedd gan yr awdurdod a wnaeth y Gorchymyn Diogelu Coed unrhyw wrthwynebiad i'r cais gwreiddiol am drwydded cwympo coed, ond bod ganddo achos i wrthwynebu newidiadau arfaethedig.

4.5 Mae'r Rheoliadau hyn yn nodi mai'r cyfnod rhagnodedig yn y ddwy enghraifft yw **un mis.** Mae hyn yn unol â'r cyfnod rhagnodedig presennol y cyfeirir ato yn adrannau 15(2) ac 19(3) o Ddeddf 1967, sydd hefyd yn gysylltiedig â Gorchmynion Diogelu Coed ac fel y nodir yn rheoliadau 7 a 9 o Reoliadau 1979 yn y drefn honno.

4.5 Mae'r Rheoliadau yn atgyfnerthu'r eithriad i'r cyfnod rhagnodedig ar gyfer gwrthwynebiad fel y nodir yn adrannau 10A(1)(b) a 24F(2) o Ddeddf 1967 lle byddai meini prawf brys yn gymwys. Mae hyn yn galluogi cymryd camau ar unwaith i atal rhagor o ddifrod amgylcheddol.

Apelau yn erbyn hysbysiadau a gyflwynir o dan adrannau newydd 24C(3), 24D(2) a 24E(3)

4.7 Mae adran newydd 26C(1) o Ddeddf 1967 yn cyflwyno cyfnod rhagnodedig a dull rhagnodedig y mae rhaid i apelau yn erbyn hysbysiadau a gyflwynir o dan adrannau newydd 24C(3), 24D(2) a 24E(3) o'r Ddeddf honno gael eu gwneud ynddynt.

4.8 Crynhoir yr hysbysiadau hyn fel a ganlyn:

- Caniateir cyflwyno hysbysiad o dan adran newydd 24C(3) pan fo amodau trwydded cwympo coed wedi eu torri.
- Caniateir cyflwyno hysbysiad o dan adran newydd 24D(2) i berchennog newydd pan fo perchennog blaenorol wedi torri amodau trwydded cwympo coed ond nad yw wedi cymryd y camau gofynnol o ganlyniad i dorri'r amodau hynny, cyn gwerthu'r tir.
- Caniateir cyflwyno hysbysiad o dan adran newydd 24E(2) pan na fo unrhyw amodau trwydded cwympo coed wedi eu torri ond bod risg o niwed sylweddol.

4.9 Mae'r Rheoliadau hyn yn darparu mai'r cyfnod rhagnodedig ar gyfer apeliadau o'r fath yw **tri mis.** Maent hefyd yn darparu bod y dull rhagnodedig y mae rhaid gwneud apêl ynddo ar y Ffurflen 9A newydd fel y nodir yn Atodlen 2 i'r Rheoliadau hyn, a gyflwynir i Weinidogion Cymru.

4.10 Mae'r Rheoliadau hyn yn unol â'r cyfnod rhagnodedig a'r dull rhagnodedig presennol mewn perthynas ag adran bresennol 25(1) o Ddeddf Coedwigaeth 1967, ac a nodir yn rheoliad 14 o Reoliadau 1979.

4.11 Mae'r Rheoliadau hyn yn darparu eithriad i'r cyfnod rhagnodedig hwn ar gyfer apelau y mae ataliad yn gysylltiedig â hwy, fel y nodir yn adrannau newydd 26A(2)(e) a 26B(2)(d) o Ddeddf 1967. Yn yr achosion hyn, byddai'r cyfnod rhagnodedig ar gyfer apelau yn estyn i gyfnod yr ataliad, fel bod y person y mae'r hysbysiad yn ymwneud ag ef yn gallu apelio i gael codi'r ataliad yn gynharach drwy hysbysiad pellach yn unol ag adrannau newydd 24C(7)(b) neu 24E(4)(b). Gall hysbysiad atal dros dro drwydded cwympo coed am fwy na thri mis. Bwriad y ddarpariaeth hon yw caniatáu i'r deiliaid trwydded hynny sy'n ddarostyngedig i ataliad o'r fath gyflwyno apêl hyd yn oed ar ôl i'r cyfnod apêl tri mis cychwynnol a ragnodwyd ddod i ben.

<u>Hawliadau digollediad</u>

4.12 Mae adrannau newydd 26D, 26E a 26F o Ddeddf 1967 yn nodi amgylchiadau pan fo digollediad yn daladwy. Mae adran newydd 26G yn gwneud darpariaeth bellach ar gyfer hawliadau digollediad ac yn darparu ar gyfer pennu'r cyfnod rhagnodedig a'r dull rhagnodedig y mae rhaid gwneud hawliadau digollediad ynddynt.

4.13 Mewn perthynas â hawliadau o dan adrannau newydd 26D, 26E a 26F, y cyfnod rhagnodedig arfaethedig ar gyfer gwneud hawliadau yw **deunaw mis** gan ddechrau ar y diwrnod ar ôl y diwrnod y mae Gweinidogion Cymru yn anfon hysbysiad o ganlyniad apêl llwyddiannus a chanslo'r hysbysiad.

4.14 Nid yw'r Rheoliadau 1979 presennol yn nodi unrhyw amserlen ar hyn o bryd ar gyfer gwneud hawliadau. Ystyrir bod y cyfnod rhagnodedig hwn yn rhesymol er mwyn ailddechrau a chwblhau'r gwaith cwympo coed, yn ogystal â chasglu tystiolaeth o gostau i gefnogi hawliad.

4.15 Mae'r Rheoliadau yn nodi bod rhaid i hawliadau digollediad gael eu cyflwyno i Cyfoeth Naturiol Cymru a'u cyflwyno ar Ffurflen 1A yn Atodlen 1.

Effaith

4.16 Bydd y Rheoliadau yn gymwys i awdurdodau sydd wedi gwneud Gorchymyn Diogelu Coed pan fo'r awdurdodau hynny yn cael hysbysiad ysgrifenedig gan Cyfoeth Naturiol Cymru o dan adrannau newydd 10A a 24F a fewnosodwyd yn Neddf 1967. Mae'r Rheoliadau hefyd yn gymwys i goedwigwyr neu reolwyr tir sy'n cael hysbysiad a gyflwynir o dan adrannau newydd 24C(3), 24D(2) a 24E(3) o Ddeddf 1967.

4.17 Os na wneir y Rheoliadau, ni fydd yr adrannau newydd o Ddeddf 1967, a fewnosodwyd gan Ddeddf 2023, yn gweithio'n iawn mewn perthynas â Gorchmynion Diogelu Coed, apelau a hawliadau digollediad gan na fydd unrhyw gyfnodau rhagnodedig nac unrhyw ddulliau rhagnodedig fel sy'n ofynnol gan yr adrannau newydd hynny.

5. Ymgynghori

5.1 Cynhaliwyd cyfnod ymgynghori wedi ei fyrhau o 4 wythnos. Trafodwyd y ffactorau a ganlyn wrth gynnal yr ymgynghoriad hwn.

- Mae manylion y newidiadau coedwigaeth ar wyneb Deddf 2023 ac ymgynghorwyd arnynt hwy yn flaenorol. Dim ond rhan o'r driniaeth honno oedd y dull rhagnodedig a'r cyfnod rhagnodedig a gwmpesir yn y Rheoliadau hyn.
- Roedd Deddf 2023 yn destun craffu yng nghyfnod 3 ac yn y cyfnod adrodd ac roedd cyfleoedd ar gael i randdeiliaid a chanddynt fuddiant lobïo am ragor o fanylion neu wneud newidiadau awgrymedig neu awgrymiadau ar gyfer gweithredu'r darpariaethau coedwigaeth.
- Targedwyd nifer bach o gynrychiolwyr rhanddeiliaid ehangach yn yr ymgynghoriad hwn. Roedd hwn yr un grŵp o randdeiliaid ag a roddodd fewnbwn i ddatblygiad darpariaethau coedwigaeth Deddf 2023. Mae'r grŵp hwn yn parhau i weithio gyda Cyfoeth Naturiol Cymru ar y canllawiau allanol ar weithredu'r pwerau newydd sy'n deillio o Ddeddf 2023. Fodd bynnag, ni wnaeth hyn atal y sector coedwigaeth ehangach na'r cyhoedd rhag cymryd rhan yn yr ymgynghoriad.
- Roedd y cyfnodau rhagnodedig a'r dulliau rhagnodedig arfaethedig yr ymgynghorwyd arnynt, ar y cyfan, yn gyson â'r darpariaethau presennol yn Neddf 1967, yn enwedig mewn perthynas ag apelau ac ymgynghori ag awdurdodau a wnaeth y Gorchymyn Diogelu Coed.

- Cynhaliwyd sesiwn ymgysylltu â rhanddeiliaid drwy Microsoft Teams hefyd ar 6 Medi 2023 i roi cyfle i drafod yr ymgynghoriad yn uniongyrchol â swyddogion.

5.2 Gellir dod o hyd i'r ddogfen ymgynghori yn Newidiadau i Reoliadau Coedwigaeth (Cwympo Coed) 1979 | LLYW. CYMRU

Canlyniad yr ymgynghoriad

5.3 Daeth i law gyfanswm o 9 ymateb - 5 gan aelodau o'r grŵp rhanddeiliaid a 4 gan y cyhoedd yn ehangach. Nodir y canlyniadau allweddol isod.

- Gorchmynion Diogelu Coed – roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn cytuno â'r cyfnod o un mis, er bod rhai yn tynnu sylw at y potensial i estyn y cyfnod rhagnodedig i awdurdodau a wnaeth y Gorchymyn Diogelu Coed wrthwynebu gan ychydig wythnosau. Cydbwyswyd hyn yn erbyn pwysau gweinyddol mewn mannau eraill o ran gohirio diwygio, yn ogystal â'r effaith ar weithrediadau cwympo coed gohiriedig. At ei gilydd, roedd Gweinidogion Cymru o'r farn mai'r cyfnod rhagnodedig arfaethedig o un mis oedd y mwyaf priodol.

- Apelau – cafwyd cytundeb cyffredinol ynghylch y cyfnod rhagnodedig a'r dull rhagnodedig arfaethedig ar gyfer apelau yn erbyn hysbysiadau a gyflwynir o dan y pwerau newydd, gydag estyniad yn y cyfnod rhagnodedig ar gyfer hysbysiadau i atal dros dro drwydded cwympo coed. Mae Gweinidogion Cymru wedi rhoi'r cynigion hynny ar waith yn y Rheoliadau hyn.

- Hawliadau am ddigollediad – Er eu bod hwy yn y lleiafrif, cyflwynodd y rhai a oedd yn anghytuno ddadleuon ynghylch gweithrediadau coedwigaeth ymarferol ar gyfer estyn y cyfnod rhagnodedig y mae rhaid cyflwyno hawliad am ddigollediad ynddo. Y broblem oedd na fyddai modd cyfrifo'r costau hyd nes y bydd y gwaith cwympo coed wedi ei ailddechrau a'i orffen. Gallai hyn fod yn ddeuddeg mis arall neu'n hirach, gan ddibynnu ar amodau'r safle a thymoroldeb. Roedd Gweinidogion Cymru o'r farn bod y rhain yn rhesymau dilys ac o ganlyniad maent wedi estyn y cyfnod rhagnodedig o dri mis i ddeunaw mis.

5.4 Bydd crynodeb o'r ymatebion sy'n cynnwys ymateb Llywodraeth Cymru ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru yn dilyn cyhoeddi'r Rheoliadau.

RHAN 2 – ASESIAD EFFAITH RHEOLEIDDIOL

6. Opsiynau a Dadansoddiad Cost a Budd

6.1 Mae'r Rheoliadau hyn yn nodi materion gweithdrefnol a gyflwynwyd gan y diwygiadau i Ddeddf 1967, "cyfnodau rhagnodedig" a "dulliau rhagnodedig" yn benodol. Mae'r rhain yn cefnogi gweithrediad a bwriad polisi y diwygiadau a wnaed i Ddeddf 1967 yn rhinwedd Deddf 2023. Er cysondeb, mae'r Rheoliadau hyn, ar y cyfan, yn adlewyrchu'r cyfnodau rhagnodedig a'r dulliau rhagnodedig presennol mewn amgylchiadau tebyg o fewn Rheoliadau 1979 a Deddf Coedwigaeth 1967.

6.2 Cynhaliwyd Asesiad Effaith Rheoleiddiol i gefnogi'r diwygiadau i Ddeddf 1967 fel y nodir yn narpariaethau coedwigaeth Deddf 2023. Amlinellir hyn yn Rhan 2 o'r Memorandwm Esboniadol ar gyfer Deddf 2023 ym mharagraffau 7.716 i 7.844 (tudalennau 332-363) ac mae i'w weld yma deddf-amaethyddiaeth-cymru-2023-memorandwm-esboniadol.pdf (llyw.cymru). Datblygwyd yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol ar gyfer y ddarpariaeth coedwigaeth gyda mewnbwn a chraffu gan grŵp rhanddeiliaid darpariaethau coedwigaeth Bil Amaethyddiaeth (Cymru), a oedd yn cynnwys cynrychiolwyr o'r sector coedwigaeth, y sector tir a'r sector cadwraeth, yn ogystal â Cyfoeth Naturiol Cymru. Rydym wedi adolygu'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol ac rydym yn fodlon mai dyma'r amcangyfrif gorau o hyd o'r costau a'r manteision tebygol, o ystyried yr wybodaeth sydd ar gael. Gan ei fod eisoes yn cwmpasu'r costau a'r manteision sy'n deillio o'r OS hwn, ac mai ei unig bwrpas yw cefnogi gweithrediad darpariaethau coedwigaeth Deddf 2023, nid yw Asesiad Effaith Rheoleiddiol ar wahân i gefnogi'r OS hwn wedi ei ystyried yn angenrheidiol.

Costau

6.3 Mae'r adrannau perthnasol o'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol ar gyfer Deddf 2023 mewn perthynas â chostau fel a ganlyn:

Gorchmynion Diogelu Coed

6.4 Ni chynhwyswyd unrhyw gostau na manteision sy'n ymwneud yn benodol â Gorchmynion Diogelu Coed yr effeithir arnynt gan ychwanegu amodau amgylcheddol neu bwerau i ddiwygio, atal dros dro neu ddirymu trwydded yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol ar gyfer Deddf 2023 oherwydd:

- Trafodwyd costau ychwanegu amodau i drwyddedau cwympo coed yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol presennol ar gyfer Deddf 2023 ym mharagraff 7.753 (tudalen 340) i baragraff 7.781 (tudalen 348).
- Trafodwyd costau pwerau i ddiwygio, atal dros dro neu ddirymu trwydded cwympo coed, gan gynnwys diwygio drwy gytundeb ar y cyd, yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol presennol ar gyfer Deddf 2023 ym mharagraff 7.789 (tudalen 350) i baragraff 7.817 (tudalen 356).
- Nid oedd yn bosibl rhagweld y costau i'r sector preifat o ychwanegu amodau amgylcheddol (paragraffau 7.765-7.766/tudalen 344) na chostau

sy'n deillio o bwerau i ddiwygio, atal dros dro neu ddirymu trwydded cwympo coed (paragraff 7.799/tudalen 353). Roedd hyn oherwydd natur amrywiol iawn trwyddedau cwympo coed o ran graddfa gweithrediadau, oedran, rhywogaethau, amodau safle a'r amgylchiadau sy'n arwain at ddefnyddio'r pwerau hyn.

- Roedd tua 3.6% o geisiadau am drwydded cwympo coed yn 2022-23 yn ymwneud â Gorchmynion Diogelu Coed. Fodd bynnag, mae'n dal yn amhosibl rhagweld pa gyfran o'r rhain fyddai'n cael eu heffeithio gan amodau penodol a fyddai'n arwain at gostau i'r sector preifat, oherwydd amgylchiadau unigol pob safle. Hefyd, nid yw'n bosibl rhagweld faint o'r deiliaid trwydded cwympo coed hynny fyddai'n rhoi achos i Cyfoeth Naturiol Cymru gyflwyno hysbysiad i ddiwygio, atal dros dro neu ddirymu, na'r costau cysylltiedig. Felly, nid oedd yn bosibl darparu'r costau hyn yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol ar gyfer Deddf 2023 ac mae hyn yn parhau i fod yn wir yn awr.

<u>Apelau yn erbyn hysbysiadau a gyflwynir o dan adrannau newydd 24C(3), 24D(2) a 24E(3)</u>

6.5 Cafodd costau sy'n ymwneud ag apelau eu cynnwys yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol ar gyfer Deddf 2023 fel a ganlyn:

- Cafodd costau apelau Cyfoeth Naturiol Cymru a Llywodraeth Cymru yn ymwneud ag amodau amgylcheddol eu cynnwys yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol ar gyfer Deddf 2023 o baragraffau 7.779 – 7.781 (tudalen 348). Roedd y rhain yn £12,000 y flwyddyn yn seiliedig ar 2 apêl y flwyddyn.
- Cafodd costau apelau Cyfoeth Naturiol Cymru a Llywodraeth Cymru oherwydd pwerau i ddiwygio, atal dros dro neu ddirymu trwydded cwympo coed hefyd eu cynnwys yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol ar gyfer Deddf 2023 ym mharagraffau 7.815 i 7.817 (tudalen 356). Cyfanswm y rhain oedd £28,000 gyda'i gilydd ar sail cynnydd i 4 apêl y flwyddyn.
- Er bod costau apelau yn y sector preifat wedi eu hepgor o'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol ar gyfer Deddf 2023, ystyrir bod amcangyfrif o tua 2-3 diwrnod o amser asiant fesul apêl ar £1200-£1800 yn rhesymol.
- Mae nifer yr achosion o apelau wedi bod yn hanesyddol isel er y gallai hyn gynyddu wrth i'r newidiadau i Ddeddf Coedwigaeth 1967 gael eu cyflwyno. Rhagwelir y bydd unrhyw gynnydd yn amlder apelau yn parhau'n isel, gan mai'r arfer ddisgwyliedig yw i Cyfoeth Naturiol Cymru gytuno ar amodau â'r rhai sy'n ymgeisio am drwydded cwympo coed cyn i'r rhain gael eu gosod yn eu trwyddedau. Disgwylir i Cyfoeth Naturiol Cymru ymgysylltu â deiliaid trwyddedau cwympo coed mewn perthynas ag achosion o dorri amodau neu pan fo potensial o niwed sylweddol yn deillio o drwydded cwympo coed, gan ddefnyddio pwerau i ddiwygio trwydded cwympo coed drwy gytundeb ar y cyd yn y lle cyntaf. Disgwylir i hysbysiadau i orfodi toriad gael eu defnyddio dim ond pan fo angen, gyda phwerau i atal dros dro neu ddirymu trwydded yn cael eu defnyddio fel

dewis olaf. Bydd y ffordd hon yn helpu i leihau'r tebygolrwydd y bydd apelau'n codi.

Hawliadau digollediad

6.6 Cydnabyddir costau digollediad yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol ar gyfer Deddf 2023 ym mharagraffau 7.808 i 7.810 (tudalennau 354-355). Rhagwelir y bydd achosion digolledu yn brin oherwydd y camau disgwyliedig gan Cyfoeth Naturiol Cymru i leihau'r tebygolrwydd y bydd apelau'n codi. Fodd bynnag, fel y nodir yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol ar gyfer Deddf 2023, mae amodau safle, cyfaint pren a gwerth yn amrywiol iawn, felly ni ellid cyfrif costau digolledu.

Manteision

6.7 Diben y Rheoliadau hyn yw sicrhau bod adrannau newydd Deddf 1967 a fewnosodir gan Ddeddf 2023 yn cael eu gweithredu. Felly, mae'r manteision sy'n deillio o'r OS hwn eisoes wedi eu hadlewyrchu yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol ar gyfer Deddf 2023 ac maent yn gyfuniad o fanteision sy'n deillio o'r pŵer i ychwanegu amodau amgylcheddol at drwyddedau cwympo coed a'r pŵer i ddiwygio, atal dros dro neu ddirymu trwydded cwympo coed.

6.8 Nodir yr adrannau perthnasol o'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol ar gyfer Deddf 2023 mewn perthynas â manteision sy'n deillio o'r OS ym mharagraffau 7.782-7.788 (tudalennau 348-350) a pharagraffau 7.818-7.819 (tudalen 356-357).

7. Asesiad Effaith Integredig

7.1 Cynhaliwyd Asesiad Effaith Integredig i gefnogi Deddf 2023 a oedd yn cynnwys y darpariaethau coedwigaeth newydd sy'n diwygio Deddf 1967. Mae'r Asesiad Effaith Integredig lefel uwch hwn ar gyfer Deddf 2023 yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn sy'n ymwneud â gweithrediad a bwriad polisi yr adrannau newydd i Ddeddf 1967. Caiff ei grynhoi ym Mhennod 8 o Ran 2 o'r Memorandwm Esboniadol ar gyfer Deddf 2023. Fodd bynnag, gellir gweld yr Asesiad Effaith Integredig llawn ar gyfer Deddf 2023 yma Templed Asesiad Effaith Integredig - Cymraeg (llyw.cymru). Mae'r adrannau o'r Asesiad Effaith Integredig mewn perthynas â'r darpariaethau coedwigaeth a'r OS hwn wedi eu nodi isod ac wedi eu hategu â gwybodaeth ychwanegol pan fo angen.

Pa gamau y mae Llywodraeth Cymru yn eu hystyried a pham?

7.2 Fel y nodir ar dudalen 6 o'r Asesiad Effaith Integredig, mae'r adrannau newydd a fewnosodwyd yn Neddf 1967 gan Ddeddf 2023 yn caniatáu i amodau amgylcheddol gael eu hychwanegu at drwyddedau cwympo coed, ac yn caniatáu i drwyddedau cwympo coed gael eu diwygio, eu hatal dros dro neu eu dirymu ar ôl i drwyddedau gael eu rhoi. Bwriad y pwerau hyn yw atal cwympo coed a fyddai'n mynd yn groes i ddeddfwriaeth amgylcheddol arall.

7.3 Ffyrdd o Weithio

- Hirdymor – mae'r darpariaethau coedwigaeth wedi eu dylunio i ddiogelu bywyd gwyllt ac i ddarparu amddiffyniad rhag difrod amgylcheddol yn ystod gwaith cwympo coed. Mae hyn yn rhoi manteision hirdymor i fywyd gwyllt a'r amgylchedd.
- Integreiddio - nodir hyn ar dudalen 12 o'r Asesiad Effaith Integredig ar gyfer Deddf 2023.
- Cynnwys – nodir hyn ar dudalen 14 o'r Asesiad Effaith Integredig ar gyfer Deddf 2023
- Cydweithio ac Atal – nodir hyn ar dudalennau 15-16 o'r Asesiad Effaith Integredig ar gyfer Deddf 2023
- Effaith – nodir hyn ar dudalen 16 o'r Asesiad Effaith Integredig ar gyfer Deddf 2023
- Costau ac Arbedion – nodir hyn ar dudalen 19 o'r Asesiad Effaith Integredig ar gyfer Deddf 2023.

Beth fydd yr effaith ar lesiant cymdeithasol?

7.4 Pobl a Chymunedau – Mae'r rhannau newydd o Ddeddf 1967 a'r Rheoliadau hyn wedi eu dylunio i ddiogelu bywyd gwyllt a'r amgylchedd yn ystod gwaith cwympo coed, gan gael effaith gadarnhaol felly ar bobl a chymunedau lleol.

7.5 Hawliau plant – Nid yw plant yn cymryd rhan mewn gweithrediadau cwympo coed ond gallant elwa yn anuniongyrchol ar yr adrannau newydd o Ddeddf 1967 drwy amddiffyniad canlyniadol cadernid ecosystemau coetir heddiw ac yfory. Nid yw'r Rheoliadau hyn yn cael unrhyw effaith ar hawliau plant, gan ganolbwyntio'n llwyr ar alluogi'r darpariaethau coedwigaeth i weithio'n iawn.

7.6 Cydraddoldeb – Mae'r adrannau newydd o Ddeddf 1967 a'r Rheoliadau hyn yn debygol o gyfrannu at hawliau dynol drwy sicrhau bod gan y rhai y mae'r defnydd o'r pwerau newydd yn effeithio arnynt hawl i apelio a, pan fo'n briodol, hawl i ddigollediad. Nid ydym yn ystyried bod unrhyw effeithiau ar agweddau eraill ar gydraddoldeb.

7.7 Prawfesur Gwledig – nodir asesiad llawn yn yr Asesiad Effaith Integredig ar gyfer Deddf 2023 (tudalennau 117-127) sy'n cynnwys y darpariaethau coedwigaeth y mae'r Rheoliadau hyn yn ymwneud â hwy.

7.8 Iechyd - Mae'r adrannau newydd o Ddeddf 1967 a'r Rheoliadau hyn wedi eu dylunio i ddiogelu bywyd gwyllt a'r amgylchedd yn ystod gweithrediadau cwympo coed, gan gael effaith gadarnhaol ar yr amgylchedd ac felly ei effaith ar iechyd dynol yn gyffredinol.

7.9 Preifatrwydd – rydym wedi ystyried y ddarpariaeth coedwigaeth a'r Rheoliadau ategol hyn mewn perthynas â phreifatrwydd ac nid ydym yn teimlo bod unrhyw effeithiau.

Beth fydd yr effaith ar lesiant diwylliannol a’r Gymraeg?

7.10 Mae rheoli coetir yn gwella cadernid cyffredinol coetiroedd a thrwy hynny yn helpu i'w diogelu fel rhan o dirwedd a threftadaeth ddiwylliannol Cymru. Mae'r adrannau newydd o Ddeddf 1967 a'r Rheoliadau hyn yn rhan o'r broses rheoli coetir honno felly maent yn debygol o gael effaith gadarnhaol ar lesiant diwylliannol. Bydd yr holl ganllawiau a'r holl ffurflenni mewn perthynas â'r adrannau newydd o Ddeddf 1967 a'r Rheoliadau hyn yn cael eu llunio yn ddwyieithog. Ni ragwelir unrhyw effeithiau eraill ar y Gymraeg.

Beth fydd yr effaith ar lesiant economaidd?

7.11 Mae'r Asesiad Effaith Integredig ar gyfer Deddf 2023 yn nodi effaith yr adrannau newydd o Ddeddf 1967 (a'r Rheoliadau hyn sy'n ofynnol i alluogi'r adrannau hynny i weithio'n effeithiol), mewn perthynas â

- Busnes, y cyhoedd ac unigolion – tudalen 45
- Y sector cyhoeddus – tudalen 53
- Effaith ar gyfiawnder – tudalen 55

Beth fydd yr effaith ar lesiant amgylcheddol?

7.12 Mae'r Asesiad Effaith Integredig ar gyfer Deddf 2023 yn nodi effaith yr adrannau newydd o Ddeddf 1967 (a'r Rheoliadau hyn sy'n ofynnol er mwyn galluogi'r adrannau hynny i weithio'n effeithiol), mewn perthynas â

- Y polisi adnoddau naturiol – 58
- Gwrthdroi'r dirywiad mewn bioamrywiaeth – tudalen 60
- Newid yn yr hinsawdd – Mae'r darpariaethau coedwigaeth a'r OS ategol yn rhan o'r gyfundrefn cwympo coed ar gyfer rheoli coetir. Gan eu bod wedi eu dylunio i ddiogelu bywyd gwyllt a'r amgylchedd yn ystod gwaith cwympo coed, maent yn cyfrannu at gadernid coetir ac ecosystemau cysylltiedig, ac at gynhyrchu pren fel deunydd carbon isel adnewyddadwy.

Beth fydd yr effaith ar anfantais economaidd-gymdeithasol?

7.13 Mae adrannau newydd Deddf 1967 a'r Rheoliadau hyn yn ymwneud ag amgylchiadau penodol i safle ynghylch amodau amgylcheddol a gweithrediadau cwympo coed ac nid ydynt yn strategol eu natur. Nid ydym felly yn ystyried bod y ddyletswydd economaidd-gymdeithasol yn gymwys yma.

Cofnod o’r asesiadau effaith llawn

7.14 Cynhaliwyd y canlynol fel rhan o'r Asesiad Effaith Integredig ar gyfer Deddf 2023 ac maent yn arbennig o berthnasol i'r adrannau newydd o Ddeddf 1967 a'r Rheoliadau hyn:

- Prawfesur Gwledig – (tudalennau 117-127)
- Asesiad o'r Effaith ar Fioamrywiaeth – tudalennau 151-168.
- Economaidd/Asesiad Effaith Rheoleiddiol – gweler adran 6 uchod

Casgliad

7.15 Gellir dod o hyd i hyn ar dudalennau 82 – 88 o'r Asesiad Effaith Integredig ar gyfer Deddf 2023. Mae'r canlynol hefyd yn berthnasol i'r adrannau newydd o Ddeddf 1967 a'r Rheoliadau hyn:

7.16 Sut mae'r bobl y mae'r cynnig yn fwyaf tebygol o effeithio arnynt wedi helpu i'w ddatblygu?

Roedd y cynnig cychwynnol i ddiwygio Deddf Coedwigaeth 1967 yn yr ymgynghoriad "Bwrw ymlaen â rheoli adnoddau naturiol Cymru yn gynaliadwy" yn 2017. Ymgynghorwyd ar y darpariaethau hyn eto fel rhan o Bapur Gwyn Amaethyddiaeth (Cymru) yn 2020.

7.17 Cynhaliwyd ymgysylltiad pellach drwy Grŵp Rhanddeiliaid Darpariaethau Coedwigaeth Bil Amaethyddiaeth (Cymru) a oedd yn cynnwys cynrychiolwyr o'r sector coedwigaeth, y sector tir a'r sector cadwraeth. Rhoddodd y grŵp hwn fewnbwn i ddatblygu'r darpariaethau coedwigaeth a'r cyfraniadau/craffu ar yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol cysylltiedig. Mae'r un grŵp yn parhau i ymgysylltu â Cyfoeth Naturiol Cymru i ddatblygu canllawiau allanol ar weithredu'r pwerau newydd sy'n deillio o'r darpariaethau coedwigaeth. Ymgynghorwyd â hwy hefyd ar y newidiadau arfaethedig sydd wedi eu cynnwys yn y Rheoliadau hyn fel y nodir yn adran 5 o'r Memorandwm Esboniadol hwn.

7.18 Effeithiau sylweddol – cadarnhaol a negyddol, a mesurau lliniaru

Nodir y rhain ar dudalen 108 o'r Asesiad Effaith Integredig ar gyfer Deddf 2023. Mae'r Rheoliadau hyn yn cefnogi polisi a gweithrediad y darpariaethau coedwigaeth, felly mae'r Asesiad Effaith Integredig ar gyfer Deddf 2023 yn berthnasol yma. Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn gweithio gyda rhanddeiliaid i ddatblygu canllawiau allanol clir ar sut y bydd y pwerau yn cael eu rhoi ar waith, ac maent yn datblygu canllawiau mewnol i sicrhau cysondeb a gwneud yn siŵr nad yw'r pwerau'n cael eu gorddefnyddio. Mae'r pwerau newydd hefyd yn darparu ar gyfer proses apelio gyda hawl i ddigollediad pan fo apêl yn llwyddiannus. Mae'r Rheoliadau hyn yn nodi'r cyfnod rhagnodedig a'r dull rhagnodedig mewn perthynas â'r broses apelio a'r hawliadau am ddigollediad. Bydd yr hawl hon i apêl a digollediad posibl, ar y cyd â chydymffurfedd Cyfoeth Naturiol Cymru ag egwyddorion Cyfraith Gyhoeddus, cod y rheoleiddwyr ac Egwyddorion Rheoleiddio Cyfoeth Naturiol Cymru ei hun yn sicrhau bod y pwerau newydd yn cael eu defnyddio'n gymesur a'u bod yn gwbl gyfiawn.

7.19 Monitro

Nodir hyn yn adran 9 o'r Memorandwm Esboniadol hwn isod.

8. Asesiad o'r Gystadleuaeth

8.1 Mae'r prawf ar gyfer hidlo'r gystadleuaeth wedi ei gwblhau. Ni ddisgwylir i'r Rheoliadau effeithio ar lefel y gystadleuaeth yng Nghymru nac ar gystadleurwydd busnesau yng Nghymru.

9. Adolygiad ôl-weithredu

9.1 Mae'r Rheoliadau hyn yn sicrhau gweithrediad yr adrannau newydd o Ddeddf 1967 a fewnosodwyd gan ddarpariaethau Deddf 2023. Mae'r adolygiad ôl-weithredu ar gyfer y diwygiadau hynny wedi'i nodi ym mharagraff 9.8 (tudalen 450) o'r Memorandwm Esboniadol ar gyfer Deddf 2023. Bydd y Rheoliadau hyn yn cael eu hadolygu fel rhan o'r adolygiad ôl-weithredu hwnnw gan ei fod yn cefnogi gweithrediad y diwygiadau hynny.